

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Talgai, Llandygai
ar nos Iau 9 Ionawr, 2020 am 19.00**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Myfanwy Jones

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Cyngor Sir:

Cynghorydd Dafydd Meurig

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.

2. Ymddiheuriadau Dim wedi eu derbyn.

3. Grŵp Cymunedol cae chwarae Talybont

Penderfynwyd gwahodd Elwyn Williams i gyfarfod mis Mawrth, i drafod sut i yrru ymlaen gyda datblygu'r safle. Angen gwirio beth yw'r hawliau ar gyfer y safle.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2019.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

Diffibriliwr – drws ciosg Llan angen sylw, y Clerc i drefnu i rhywun drwsio'r drws. Y Clerc i ail-drefnu'r sesiwn hyfforddiant cyn gynted a bu'r modd.

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Cyngor Gwynedd i gwblhau ychwaneg o ymchwiliadau pan fu'r tywydd yn addas. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Llifogydd Tan Lôn – Cyngor Gwynedd wedi bod i archwilio'r safle. Bydd y gwaith tacluso'n cael ei gyflawni cyn gynted a bod adnoddau'n caniatáu. Y gwaith glanhau heb ei wneud pan ddaeth fwy o lifogydd mis diwethaf. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd

unwaith eto. Disgwyl am ymateb gan Stad Penrhyn ynglŷn a cael cyfarfod ar y safle gyda Cyngor Gwynedd.

Mynydd i Parc Main – defaid yn mynd drwodd i'r mynydd gan nad oes rhwystr yno. Y Clerc i hysbysu Stad Penrhyn. Dim ymateb hyd yn hyn.

Allt Ty'n Hendre a Ffordd Bronydd – tyllau ar hyd y ffordd. Y Clerc i holi eto.

Cais cynllunio Fferm Talybont Uchaf – y Clerc i holi eto am yr arwyddion sydd fod i gael eu gosod.

Rali a gynhaliwyd 7fed o Ragfyr – adroddwyd bod rali ar hyd lonydd cul Llanllechid ac nid oedd rhai preswylwyr wedi cael rhybydd o'r digwyddiad. Y Clerc i gysylltu eto gyda North Wales Rally i holi.

Lôn Goed – arwydd 'anaddas ar gyfer cerbydau llydan' wedi llithro lawr y polyn. Y Clerc i holi eto.

Wal Maes y Groes – adroddwyd bod car wedi taro'r wal ar y gornel unwaith eto a difrodi'r wal. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Lôn Goed ac Allt Ty'n Hendre – angen y lori i lanhau'r dail a mwd, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

6. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Rhys Jones – Trydanwr i osod defib Llan

£200.79

Llais Ogwan – hysbyseb rhoddion

£36.00

7. Gohebiaeth

Cyflwynwyd - OWL Cymru, Elusen Atal Trosedd - nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i gefnogi'r cynllun hwn ar hyn o bryd. Nodwyd yr aelodau eu siom fod y llythyr wedi cael ei gyflwyno yn uniaith Saesneg.

Cyflwynwyd – Llythyr gan Bartneriaeth Ogwen parthed Cytundeb Clercio a Datblygu Cymunedol 2020-23. Penderfynwyd derbyn y gytundeb. Angen gwirio'r ffi ar gyfer y gwasanaeth i'r Is-bwyllgor Mynydd.

Cyflwynwyd – e-bost gan Gyngor Gwynedd gyda'r costau sydd ynghlwm â cynnal a chadw'r meysydd chwarae sydd yn y plwy. Y Cyngor i ystyried y posibilrwydd o gymryd cyfrifoldeb am yr asedau yn y dyfodol.

8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Dim i'w adrodd.

9. Adroddiad Cyllid

Derbyniwyd yr adroddiadau.

10. Archeb 2020-21

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ar y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £15,000.

11. Penderfyniadau Cynllunio:

C19/1077/21/HY

Ogwen Bank, Maes Carafannau, Bethesda

Cais ôl-weithredol i osod 3 arwydd wedi eu goleuo.

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd.

C19/1021/16/LL

Hartwell, 1 Bythynnod, Tal y bont, Bangor

Disodli tô gwastad gyda crib ynghyd ac estyniad i greu porth

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau drosodd.

Ceisiadau Cynllunio:

Dim ceisiadau.

12. Materion Brys

Ffordd ger Tyddyn y Berth – angen ei lanhau.

Cae chwarae bach – y gwair angen ei dorri.